# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Maes Y Felin

Dyddiad yr arolygiad: 02/03/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Maes Y Felin yn darparu amgylchedd gofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn helpu creu awyrgylch digynnwrf lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn dangos caredigrwydd a pharch at ei gilydd. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n mynychu dosbarth y ganolfan adnoddau.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn creu amgylcheddau dysgu pwrpasol sy'n annog disgyblion i gymryd rhan yn weithredol yn eu dysgu. Yn y dosbarthiadau iau, mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardaloedd agored i ddarparu gweithgareddau diddorol sy'n hyrwyddo gwaith tîm a datrys problemau. Mae disgyblion yn mwynhau cyfleoedd i archwilio a chreu, fel adeiladu strwythurau neu ddatblygu amgylcheddau chwarae dychmygus. Mae cwricwlwm yr ysgol yn eang a difyr, ac mae diddordebau disgyblion iau yn aml yn helpu ffurfio'r hyn y maent yn ei ddysgu. At ei gilydd, nid yw disgwyliadau athrawon ar gyfer disgyblion yn ddigon uchel yn gyson, ac nid yw gweithgareddau dysgu bob amser yn darparu her ddigonol ar gyfer pob un o'r disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd yn dda. Maent yn elwa ar amgylchedd sy'n gyfoethog o ran iaith a chyfleoedd rheolaidd i drafod eu syniadau gyda disgyblion eraill. Mae disgyblion iau yn meithrin medrau darllen cynnar cryf ac yn mwynhau gwrando ar storïau, a'u rhannu, tra bod disgyblion hŷn yn darllen ystod eang o destunau gyda hyder cynyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda dros gyfnod, er nad yw disgwyliadau ar gyfer llawysgrifen a chyflwyniad bob amser yn ddigon uchel. Mewn mathemateg, mae llawer o ddisgyblion yn meithrin medrau rhif cadarn ac yn defnyddio gwahanol ddulliau i ddatrys problemau, ond nid yw disgyblion hŷn bob amser yn cael digon o gyfleoedd i gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws meysydd dysgu eraill.

Mae arweinwyr yn cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol ac yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus. Mae staff yn darparu cymorth ac ymyriadau targedig lle mae angen, gan helpu disgyblion i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r ysgol yn datblygu cysylltiadau cryf â rhieni a'r gymuned, sy'n cryfhau ymdeimlad disgyblion o berthyn ac wedi helpu gwella presenoldeb.

Er bod arweinwyr yn adolygu gwaith yr ysgol yn rheolaidd ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad staff, mae blaenoriaethau'r ysgol yn rhy eang, sy'n arafu cyflymdra'r gwelliant. Mae llywodraethwyr yn deall yr ysgol yn dda ac yn cefnogi ei gwaith. Mae eu rôl o ran casglu tystiolaeth uniongyrchol yn datblygu'n addas.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Miniogi blaenoriaethau gwella i sicrhau bod pob un o'r staff a'r llywodraethwyr yn deall eu rôl mewn ysgogi gwelliant

A2 Sicrhau bod gan bob un o'r athrawon ddisgwyliadau cyson uchel ac yn herio disgyblion yn briodol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/05/2026